Os gofyn rhywun beth yw Duw

Caneuon Ffydd: Rhif 171

Os gofyn rhywun beth yw Duw,
atebwn ni mai cariad yw:
fe fflamiodd cariad Tri yn Un
yn rhyfedd at annheilwng ddyn.

Nid dim rhinweddau ynom ni
na dim a wnaed ar Galfarî
fu'n achos iddo garu dyn,
fe'i carodd er ei fwyn ei hun.

Fe'n carodd, ac fe'n câr o hyd,
ymhob rhyw drallod yn y byd;
a'r rhai a garodd ef un waith,
fe'u câr i dragwyddoldeb maith.

AZARIAH SHADRACH, 1774–1844

MYFYRDOD

Gallwch dynnu llawer iawn o bethau allan ohonom ni fel bodau dynol ac eto byddwn yn rhyfeddol o gyfan, ond pe aem ati i feddwl am Dduw heb gariad, yna fyddai gennym ni ddim ar ôl o gwbl, 'oherwydd cariad yw Duw' (1 Ioan 4:8). A'r adnodau hynny yn llythyr cyntaf Ioan sydd yn sail i'r emyn hwn o foliant i Dduw am ei gariad rhyfedd a thragwyddol tuag at ddynol-ryw.

Ond nid yw Duw'n cadw'r cariad hwnnw iddo'i hun, ond yn hytrach yn ei dywallt i mewn i'n calonnau ni: 'mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni' (Rhuf. 5:5). Dyma un o weithredoedd prydferth yr Ysbryd Glân, sef rhoi i ni o'r un cariad ag a olygodd fod Duw yn fodlon rhoi ei Fab i'r byd. Pe byddem ni heb y cariad hwnnw ni fyddem yn gallu adnabod Duw: 'oherwydd cariad yw Duw'. Mae

angen cariad, felly, i adnabod cariad Duw.

Yn anffodus, mae nifer o bobl yn ei chael hi'n anodd credu bod rhywun yn eu caru nhw. Mae yna lawer o bobl sy'n honni na chawsant erioed y cariad roedden nhw'n dyheu amdano gan eu rhieni, ffrindiau na theulu. Y gwir amdani ydy nad oes yna neb erioed wedi ein caru ni yn y ffordd mae'n calonnau yn dyheu amdano. Nid yw cariad mam a thad, ffrindiau, na hyd yn oed gŵr neu wraig yn ddigon. Mae yna rywbeth yn ddwfn ym mhob un ohonom ni sy'n dyheu am gariad mwy nag y gall unrhyw berson arall ei roi. Dim ond yr Ysbryd Glân hwn all ein hargyhoeddi ein bod yn cael ein caru i'r eithaf ac nad oes ots pwy sydd heb fod yn ein caru ni, oherwydd fe gawn ni ein caru gan yr Un sydd â'i gariad yn fwy ac yn helaethach na chariad dynol. Llwydda'r Ysbryd i'n hargyhoeddi o hyn trwy dywallt cariad Duw i mewn i'n calonnau. Does dim diwedd iddo chwaith: 'Fe'n carodd, ac fe'n câr o hyd . . . fe'u câr i dragwyddoldeb maith'; mae'n ymestyn o'r cychwyn cyntaf, cyn ein bod, i mewn i'n presennol ac ymlaen hyd eithaf ein dyfodol. Ni all cariad arall gystadlu yn wir â chariad fel hyn.

Mae cariad mor bwysig ac yn gwneud cymaint o wahaniaeth i'n bywydau fel bodau dynol: yn ein cynorthwyo i wynebu anawsterau, diystyru ymosodiadau, a chanolbwyntio ar y gwaith sydd gennym o'n blaenau. Oni bai bod yr Ysbryd yn tywallt cariad i mewn i'n calonnau, yna, er ein bod yn byw ein bywydau, dydym ni ddim yn byw bywyd yn ei holl gyflawnder.

GWEDDI

O Dduw Dad, ti a'n lluniodd yn nyfnder ein bod er mwyn derbyn a dangos cariad. Diolch iti dy fod yn fy mendithio cymaint trwy gynnig dy gariad di dy hun imi i'm llenwi. Llanw fi i'r ymylon a throsodd â'r cariad hwnnw heddiw – dy gariad a'th fodolaeth di dy hun, 'oherwydd cariad yw Duw'. Clod i enw Iesu. Amen.